

Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith:

Protocol ar gyfer Cyswllt

(Cymru a Lloegr)

Rhagair

Dyma bedwerydd fersiwn y protocol hwn, a gyflwynwyd gyntaf ym 1998. Y llofnodwyr i'r protocol yw:

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC);
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP);
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC);
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW);
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA);
Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS);
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE);
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW);
Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA);
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA);
Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd: Yr Adran Dyfeisiau Meddygol (MHRA);
Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR);
Swyddfa Rheilffordd a Ffordd (ORR);
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Mae awdurdodau gorfodi, ymchwilyr a rheoleiddwyr eraill nad ydynt yn llofnodwyr i'r protocol hwn ond sy'n cytuno i gadw at egwyddorion y protocol yn cynnwys yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

Mae'r Protocol yn ddogfen lefel uchel a gefnogir gan, a dylid ei darllen ar y cyd â'r Canllaw Ymarferol i Farwolaethau Cysylltiedig â Gwaith sy'n cyflwyno ymagwedd seml gam wrth gam at gyd-ymchwilio i farwolaethau cysylltiedig â gwaith.

Pwrpas y protocol a'r canllaw cefnogol yw sicrhau cyd-ymchwilio effeithiol i farwolaethau cysylltiedig â gwaith yng Nghymru a Lloegr. Ers iddo gael ei gyflwyno ym 1998, mae'r protocol wedi dod yn ymagwedd ymarferol at gysylltu effeithiol rhwng y sefydliadau llofnodol wrth ymchwilio i farwolaeth gysylltiedig â gwaith. Trwy lofnodi'r protocol, mae llofnodwyr yn cadarnhau eu hymrwymiad i ymagwedd gyd-ymchwilio, gan werthfawrogi bod y cyhoedd eisiau teimlo'n hyderus bod y rhai hynny sy'n ymchwilio i farwolaethau cysylltiedig â gwaith yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gyd-gysylltu gweithgareddau, ac i gydweithredu â'i gilydd er lles gorau diogelwch y cyhoedd a'r rhai hynny a effeithir gan farwolaethau cysylltiedig â gwaith.

Mae Atodiad A yn darparu canllaw cyffredinol i'r broses o orfodi troseddau cysylltiedig â Dynladdiad, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (Deddf HSW) a deddfwriaeth gysylltiedig.

Llofnodwyr

	Comander Dean Hayden Metropolitan Police Service Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)	
	Paul Crowther Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	
	Paul Hancock Llywydd Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân	
	Alison Saunders Cyfarwyddwraig Erlyniadau Cyhoeddus Gwasanaeth Erlyn y Goron	
	David Behan Prif Weithredwr Y Comisiwn Ansawdd Gofal	
	Imelda Richardson Prif Weithredwraig Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	
	Richard Judge Prif Weithredwr Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	
	Kate Chamberlain Prif Weithredwraig Arolygiaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	
	Nick Worth Hyrwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio Cymdeithas Llywodraeth Leol	
	Alan Massey Prif Weithredwr Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau	
	John Wilkinson Cyfarwyddwr Adran Dyfeisiau Meddygol MHRA	
	Richard Savage Prif Arolygydd Swyddfa dros Reoli Niwclear	
	Richard Price Prif Weithredwr Swyddfa Rheilffordd a Ffordd	
	Neil Moore Siaradwr dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Gwasanaethau Rheoleiddio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	

1 Datganiad o fwriad

Mae llofnodwyr i'r Protocol yn cytuno i gydweithio a chadw at yr egwyddorion sylfaenol dilynol:-

- Bydd yr heddlu'n ymchwilio lle mae amheuon bod dynladdiad esgeulus wedi achosi marwolaeth (neu yn ôl barn feddygol, tebygolrwydd cryf o farwolaeth);
- bydd yr awdurdod gorfodi perthnasol yn ymchwilio i droseddau iechyd a diogelwch;
- fel arfer yr heddlu fydd y cyntaf i gyrraedd lleoliad marwolaethau cysylltiedig â gwaith a byddant yn cysylltu ag a hysbysu awdurdodau gorfodi perthnasol eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol;
- caiff ymchwiliadau eu cynnal a rheoli ar y cyd yn unol â'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith: Canllaw Ymarferol;
- yn ystod yr ymchwiliad, bydd un parti'n derbyn blaenoriaeth⁽¹⁾;
- bydd pob parti i ymchwiliad ar y cyd yn ceisio cynyddu eu hymchwiliadau eu hunain ta waeth pwy sydd â blaenoriaeth;
- gall blaenoriaeth ar gyfer ymchwiliad newid a dylid cynnal y broses o drosglwyddo blaenoriaeth mewn modd effeithlon ac amserol;
- bydd penderfyniadau gorfod yn seiliedig ar ymchwiliadau cadarn, cael eu cydgysylltu rhwng yr holl bartïon perthnasol a chael eu gwneud heb oedi gormodol;
- ymgynghorir ag awdurdodau gorfodi perthnasol ynghylch dilyn troseddau eraill heblaw am droseddau cysylltiedig â dynladdiad. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau drwodd hyd at ddiwedd y camau gorfodi;
- bydd yr heddlu ac awdurdodau gorfodi perthnasol yn cytuno ar sut dylid dal i hysbysu'r Crwner o gynnydd ymchwiliad;
- bydd y galarwyr a thystion yn dal i gael eu hysbysu; a
- bydd y partïon i'r protocol yn cynnal cyswllt effeithiol.

(1) Diffiniad Blaenoriaeth: Bydd un Parti i'r Ymchwiliad yn arwain â'r partïon eraill yn gweithio ar y cyd ac yn gyfochrog.

2 Protocol ar gyfer Cyswllt

2.1 Yn ystod camau cynnar ymchwiliad nid yw'n amlwg bob tro a yw unrhyw dramgwydd troseddol wedi'i gyflawni. Gwneir penderfyniadau ar y cyd ynghylch pwy fydd yn derbyn blaenoriaeth, ac ar y cyfeiriad a gymerir. Dylai'r penderfyniadau fod yn amserol, wedi'u hysbysu gan y dystiolaeth ac arbenigedd technegol gorau sydd ar gael a dylid ystyried lles ehangach y cyhoedd.

2.2 Er bydd blaenoriaeth gan un parti ar gyfer yr ymchwiliad, bydd yr holl bartion yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod eu hymchwiliadau eu hunain yn cynyddu yn gyfochrog a heb oedi. Ni ddylai blaenoriaeth fod yn rhwystr sy'n atal cynnydd unrhyw ymchwiliad. Lle mae blaenoriaeth yn newid, yn fwyaf cyffredinol o'r heddlu i'r awdurdod gorfodi perthnasol, dylid trosglwyddo'r ymchwiliad mewn modd amserol ac effeithlon.

2.3 Gall yr heddlu ail-dderbyn blaenoriaeth mewn ymchwiliadau lle mae tystiolaeth newydd o drosedd posibl cysylltiedig â dynladdiad wedi dod i'r amlwg, neu o ganlyniad i ddyfarniad cwest y Crwner o ladd anghyfreithlon.

2.4 Dim ond yr heddlu all ymchwilio i droseddau cysylltiedig â dynladdiad (dynladdiad corfforaethol neu esgeulustod difrifol), a dim ond y CPS all benderfynu a fydd y fath achos yn symud ymlaen. Pryd bynnag mae amheuon y gallai dynladdiad esgeulus wedi achosi marwolaeth, bydd yr heddlu'n derbyn blaenoriaeth ar gyfer ymchwiliad a gweithio ar y cyd ag awdurdodau gorfodi perthnasol eraill.

2.5 Hefyd bydd yr heddlu â diddordeb i sefydlu'r amgylchiadau ynghylch marwolaeth gysylltiedig â gwaith er mwyn cynorthwyo ymchwiliad y crwner.

2.6 Fel arfer erlynir troseddau iechyd a diogelwch gan yr awdurdod gorfodi perthnasol. Hefyd gallai'r CPS erlyn troseddau iechyd a diogelwch, ond fel arfer maent yn gwneud hynny dim ond wrth erlyn trosedd cysylltiedig â dynladdiad, yn codi o'r un amgylchiadau⁽²⁾.

2.7 Dylid ceisio cyngor gan y CPS cyn gynted â phosibl mewn ymchwiliad cysylltiedig â dynladdiad ac, o fewn 3 mis o ddyddiad y farwolaeth, dylid ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr â'r CPS. Dylai'r adolygiad gynnwys yr heddlu ac awdurdodau gorfodi perthnasol eraill.

2.8 Dylai ymchwiliadau i farwolaethau cysylltiedig â gwaith gael eu hadolygu'n rheolaidd, a dylai unrhyw faterion sy'n codi gael eu trafod a datrys ar y lefel briodol. Dylai ymchwiliadau gael eu cwblhau, a dylid gwneud unrhyw benderfyniad i erlyn gael ei wneud, cyn gynted â phosibl, gan ystyried natur yr achos. Dylai'r holl bartion anelu at sicrhau y dygir unrhyw erlyniad cyn gynted â phosibl a heblaw am o dan amgylchiadau eithriadol heb fod yn hwyrach na 3 blynedd o ddyddiad y farwolaeth⁽³⁾.

(2) Gall trosedd o fetu â chydymffurfio â Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014 gan gynnwys methu â darparu gofal a thriniaeth ddiogel yn arwain at niwed y gellid ei osgoi neu risg sylweddol o ddatguddiad i niwed y gellid ei osgoi gael ei erlyn gan CQC yn unig oni bai fod y Twrnai Cyffredinol yn darparu caniatâd ysgrifenedig i berson arall (Adran 90 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008).

(3) Mae'n rhaid i erlyniadau CQC gychwyn o fewn deuddeg mis o'r dyddiad lle mae digon o dystiolaeth yn bodoli, ym marn yr erlynydd, i gyfiawnhau erlyniad. Yn yr achosion hyn bydd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad yn fyrrach.

3 O dan pa amgylchiadau fydd y protocol hwn yn gweithredu?

3.1 At ddibenion y protocol hwn, mae marwolaeth cysylltiedig â gwaith yn farwolaeth o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n codi o, neu mewn cysylltiad â, gwaith. Mae'r egwyddorion a gyflwynir yn y protocol hwn hefyd yn gymwys i achosion lle mae'r dioddefwr yn dioddef anafiadau yn y fath ddigwyddiad sydd mor ddifrifol bod arwydd clir, yn ôl barn feddygol, bod tebygolrwydd cryf y bydd marwolaeth yn digwydd.

3.2 Bydd achosion lle mae'n anodd penderfynu a yw marwolaeth wedi'i gysylltu â gwaith o fewn ystyr y protocol hwn, er enghraifft, y rhai hynny sy'n codi o rai digwyddiadau damweiniau ffordd, neu mewn carchardai, neu'n dilyn gollyngiad nwy. Mae'n rhaid ystyried pob marwolaeth yn unigol, neu ar ei ffeithiau neilltuol, yn ôl cyfarwyddyd mewnol sefydliadol, gan wneud penderfyniad ynghylch a ddylid ei ddsbarthu fel marwolaeth cysylltiedig â gwaith. Wrth benderfynu ar y cwestiwn hwn, bydd yr awdurdodau gorfodi'n cynnal trafodaethau a chytuno ar benderfyniad heb oedi.

4 Cyswllt cenedlaethol

4.1 Mae'r Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu (NPCC); BTP; y CPS; CQC, CSSIW, HIW, HSE; awdurdodau lleol; ONR, ORR; MCA, MHRA ac CFOA. Bydd yn cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn i adolygu'r broses o weithredu'r protocol ac i ystyried yr angen am newidiadau i'r trefniadau. Manylir y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr NLC yn Atodiad B.

5 Cyswllt lleol

5.1 Mae'r Pwyllgorau Cyswllt Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r llofnodwyr, wedi'u henwebu ar lefelau lleol. Bydd y pwyllgorau hyn yn cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn i drafod materion o gydfuddiant a chyd-bryder, ac yn arbennig y broses o weithredu'r protocol o safbwynt lleol, i fonitro effeithiolrwydd y protocol, ac i gyfathrebu unrhyw broblemau i'r Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol.

5.2 Bydd RLCs yn gyfrifol am sicrhau bod llinell ddynodedig ac effeithiol o gyfathrebu lleol rhwng sefydliadau llofnodol. Manylir ar Gylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer RLCs yn Atodiad C.

Atodiad A: Canllaw cyffredinol i'r broses o orfodi troseddau cysylltiedig â Dynladdiad, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig

Troseddau cysylltiedig â Dynladdiad

Cynhelir ymchwiliadau i droseddau cysylltiedig â dynladdiad h.y. Dynladdiad Esgeulustod Difrifol (GNM) a Dynladdiad Corfforaethol gan yr heddlu. Hefyd mae gan yr heddlu rôl o ran cynorthwyo'r crwner yn ymchwiliad y crwner.

Cynhelir erlyniadau o droseddau cysylltiedig â dynladdiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae Unedau Troseddau Cymhleth (CCUs) o fewn y CPS yn delio a'r holl achosion dynladdiad esgeulustod difrifol heblaw am y rhai hynny o natur feddygol. Trafodir dynladdiad meddygol a dynladdiad corfforaethol (heblaw am bartneriaethau a drafodir gan CCUs) gan Unedau Troseddu Arbennig y CPS yn yr Adran Arbennig er Troseddu a Gwrthderfysgaeth (SCCTD).

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974

Rhennir y gwaith o orfodi'r Ddeddf HSW a'r deddfwriaeth gysylltiedig rhwng HSE, awdurdodau lleol, ONR ac ORR. Manylir ar ganllaw cyffredinol i'r broses o ddyrannu'r prif weithgarwch isod. I weld cyfarwyddyd manylach ar ddyrannu gweithgareddau neu safleoedd penodol rhwng HSE ac awdurdodau lleol cyfeiriwch at wefan HSE: www.hse.gov.uk/lau/lacs/23-15.htm. I weld cyfarwyddyd manylach ar weithgareddau neu safleoedd penodol a ddyrennir i ORR cyfeiriwch at: www.hse.gov.uk/aboutus/howwework/framework/mou/orrmou.pdf.

Mae HSE, awdurdodau lleol, ONR ac ORR yn gyfrifol, o dan adran 18 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HSWA), am wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch â golwg ar sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr ac amddiffyn pobl eraill, yn bennaf y cyhoedd.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ⁽¹⁾

Mae HSE yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith mewn:

- ffatrioedd a safleoedd gweithgynhyrchu eraill, gan gynnwys rhai busnesau trwsio cerbydau modur;
- safleoedd a phurfeydd cemegol;
- adeiladu;
- pyllau, chwareli a safleoedd tirlenwi;
- ffermydd, amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- ysbytai, gan gynnwys cartrefi nyrsio sy'n amodol ar arweiniad CQC ar gyfer digwyddiadau iechyd a diogelwch lle mae defnyddwyr gwasanaethau wedi'u niweidio;
- llywodraeth leol, gan gynnwys eu swyddfeydd a chyfleusterau a redir ganddynt;
- ysgolion, colegau a phrifysgolion;
- gosod, cynnal neu drwsio nwy domestig;
- cyfleustodau, gan gynnwys cynhyrchu pŵer, dŵr a gwastraff;
- caeau ffeiriau (teithiol neu sefydlog);

- meysydd awyr (ac eithrio adeiladau terfynfa, meysydd parcio ac adeiladau swyddfa);
- yr heddlu ac awdurdodau tân;
- cyrff y Goron, gan gynnwys Y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- carchardai;
- dociau;
- gweithfeydd nwy ac olew ar y môr, technolegau ynni datblygol a gweithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys badau gosod pibellau, a llongau cymorth ar gyfer plymio;
- peryglon mawr ar y tir, gan gynnwys piblinellau, trosglwyddo a dosbarthu nwy;
- gweithgynhyrchu, cludo, trafod a diogelwch ffrwydrion; a
- rhannau cyffredin safleoedd domestig.

Y Comisiwn Ansawdd Gofal ⁽¹⁾

CQC yw'r rheoleiddiwr annibynnol o iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Hefyd CQC yw'r prif gorff ymchwilio a gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (HSCA 2008) ar gyfer diogelwch ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir i gleifion a defnyddwyr eraill o wasanaeth gan ddarparwyr a gofrestrir gyda CQC.

Mae cylch gwaith rheoleiddiol CQC yn cynnwys:

- Cartrefi gofal a nyrsio;
- Ysbytai preifat a chyhoeddus;
- Iechyd a gofal cymdeithasol mewn sefyllfaoedd diogel gan gynnwys carchardai, sefydliadau troseddwy ifanc ac ysbytai diogel;
- Gofal cartref;
- Practisau meddygon teulu a phractisau deintyddol; a
- Gwasanaethau iechyd meddwl.

Prif amcan CQC yw amddiffyn a hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, fel a gyflwynir yn yr HSCA 2008, a'i rheoliadau cysylltiedig, Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014, ('RAR 2014') a Rheoliadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (Cofrestru) 2009 (RR 2009).

Bydd CQC yn dilyn achos sifil a, lle mae'n briodol, achos gorfodi troseddol yn erbyn unigolion cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol am dorri deddfau iechyd a gofal cymdeithasol o dan HSCA 2008 a RAR 2014.

O 1 Ebrill 2015 mae gan CQC bŵer i erlyn oherwydd methiannau i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi neu risg sylweddol o ddatguddiad i niwed y gellir ei osgoi (Rheoliad 12 (1) RAR 2014). Nid yw'r pŵer hwn yn gymwys i fethiannau cyn 1 Ebrill 2015. Gellir dwyn erlyniadau yn erbyn darparwyr cofrestredig, rheolwyr cofrestredig unigol a chyfarwyddwyr darparwyr corfforaethol.

Ni all CQC ymchwlio i nac erlyn llofruddiaeth, dynladdiad, troseddau'r ddeddf iechyd a diogelwch yn y gwaith, esgeulustod bwriadol na chamdriniaeth.

Hefyd mae gan CQC bŵer i erlyn darparwyr nas cofrestrir o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol am drosedd o cynnal gweithgaredd a reoleiddir pan nad ydynt wedi'u cofrestru i wneud hynny.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ⁽¹⁾

CSSIW yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel rhan o swyddogaeth reoleiddiol CSSIW, mae'n cofrestru, archwilio a gweithredu dros wella er mwyn sicrhau mai dim ond pobl a sefydliadau a fydd yn darparu gwasanaeth diogel o safon uchel sy'n cael eu cofrestru. Mae deddfwriaeth yn darparu am ddau ateb cyfreithiol gwahanol ar gyfer camau gorfodi, sifil a throseddol. Gall CSSIW ddilyn y naill neu'r llall neu'r ddau ar yr un pryd.

Mae CSSIW yn rheoleiddio ac archwilio:

- Cartrefi gofal ar gyfer oedolion, gan gynnwys y rhai hynny'n darparu gofal nyrsio;
- Asiantaethau gofal cartref;
- Cynlluniau ar gyfer lleoli oedolion;
- Cartrefi plant;
- Gwarchodwyr plant;
- Gwasanaethau gofal dydd ar gyfer plant;
- Asiantaethau maethu;
- Ysgolion preswyl;
- Canolfannau preswyl i deuluoedd;
- Ysgolion arbennig preswyl; a
- Cholegau addysg bellach ar gyfer myfyrwyr dan 18 oed.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ⁽¹⁾

HIW yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif ffocws HIW ar:

Wneud cyfraniad i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai.

Cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd yr adolygir gwasanaethau iechyd.

Sicrhau y trefnir bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Mae HIW yn gwneud hyn trwy:

- Arolygu gofal iechyd GIG er mwyn darparu sicrwydd ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau GIG trwy ein rhaglen o arolygiadau a gweithgareddau adolygu;
- Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol;
- Arolygu ysbytai Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu yn y GIG a'r sector annibynnol fel ei gilydd er mwyn sicrhau bod yr unigolion mwyaf hyglwyf mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn, gofalu amdanynt a thrin yn briodol mewn amgylcheddau sy'n ffafriol ar gyfer gwella;
- Cyflawni'r swyddogaeth o Awdurdod Goruchwylio Lleol (LSA) ar gyfer Cymru a cholegau addysg bellach ar gyfer myfyrwyr dan 18 oed.

Awdurdodau Tân ac Achub

Yng Nghymru a Lloegr, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ym mhob math o safleoedd ac eithrio safleoedd sy'n cynnwys tŷ a feddiannir fel annedd breifat sengl.

Awdurdodau lleol ⁽¹⁾

Yng Nghymru a Lloegr, mae awdurdodau lleol yn gorfodi'r Ddeddf HSW ynghylch safleoedd annomestig penodol, gan gynnwys:

- siopau a manwerthu, gan gynnwys stondinau marchnad, londretiau a weithredir gan ddarnau arian, a gwerthwyr symudol;
- y mwyafrif o weithgareddau a leolir mewn swyddfeydd;
- rhai warysau cyfanwerthu a manwerthu;
- gwystai, tai llety, hostelau, safleoedd carafannau a gwerysyla, bwytai, tafarndai a safleoedd trwyddedig eraill;
- hamdden ac adloniant, gan gynnwys clybiau nos, sinemâu, clybiau cymdeithasol, syrcau, cyfleusterau chwaraeon, clybiau iechyd, campfeydd, ysgolion marchogaeth, caeau rasio, llogi cychod pleser, cylchffyrdd rasio modur, amgueddfeydd, theatrau, orielau celf a chanolfannau arddangos;
- manau addoli a threfnwyr angladdau;
- gofal anifeiliaid, gan gynnwys sŵau, stablau hurio a chynelau;
- gwasanaethau therapiwtig a harddwch, gan gynnwys tylino, sawnau, heulfeydd, tatŵio, tyllu croen a chorff, a thrin gwallt;
- cartrefi gofal preswyl sy'n amodol ar arweiniad CQC ar gyfer digwyddiadau iechyd a diogelwch lle mae defnyddwyr gwasanaethau wedi'u niweidio;
- gofal plant cyn ysgol a redir yn breifat, e.e. meithrinfeydd.

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ⁽¹⁾

Mae'r MCA yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch gysylltiedig â gwaith ar fwrdd llongau masnachol o unrhyw faint ac yn achos llongau'r DU mae hyn yn gymwys unrhyw le yn y byd ac yn achos llongau eraill tra'u bod yn nyfroedd y DU. Mae deddfwriaeth yn cwmpasu'r meysydd dilynol:

- strwythur llongau;
- cynllun, cynhaliaeth a defnydd diogel y llong;
- cynllun, cynhaliaeth a defnydd diogel offer y llong;
- trefniadau byw a lles y criw;
- cludo nwyddau peryglus ar y môr;
- yr holl weithrediadau cysylltiedig â diogelwch ar longau.

Swyddfa dros Reoli Niwclear

Mae ONR yn gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch ar safleoedd Niwclear PF, safleoedd Amddiffyn Awdurdodedig, safleoedd Llongau Rhyfel Niwclear, ac Adeiladau Newydd Niwclear. Mae ONR yn gyfrifol am ymchwilio i Farwolaethau Cysylltiedig â Gwaith a allai ddigwydd ar y safleoedd hynny.

Swyddfa Rheilffordd a Ffordd ⁽¹⁾

- Mae ORR yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig

â gwaith mewn:

- rheilffyrdd, systemau tram a thanddaearol o fewn Prydain Fawr;
- uniondeb seilwaith rheilffyrdd;
- cynllun, cynhaliaeth a defnydd diogel ar gyfer cerbydau rheilffordd neu stoc rholio;
- paratodau, symudiadau a chludiant nwyddau ar drenau;
- gweithredu gorsafoedd;
- cludo nwyddau peryglus ar y rheilffordd.

Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd: Yr Adran Dyfeisiau Meddygol

Yr MHRA yw'r awdurdod rheoleiddio yn y DU ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae'r Adran Dyfeisiau Meddygol yn ymchwilio i'r holl ddigwyddiadau a adroddir yn cynnwys dyfeisiau meddygol a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd ysbytai, gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos â'r HSE, yr Heddlu a Chwerneriaid mewn achosion sy'n cynnwys marwolaethau cleifion, fel sy'n briodol.

Awdurdodau ac asiantaethau eraill

Mae awdurdodau ac asiantaethau eraill â chyfrifoldebau am ymchwilio i a gorfodi'r Ddeddf HSW neu ddeddfwriaeth debyg arall. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Awdurdod Hedfan Sifil
- Safonau Masnach;
- Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS);
- Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Môr (MAIB);
- Y Bwrdd Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Rheilffordd (RAIB);
- Y Bwrdd Ymchwilio i Ddamweiniau yn yr Awyrr (AAIB).

Lle mae marwolaeth gysylltiedig â gwaith oherwydd damwain yn yr awyrr, ar y môr neu ar y rheilffordd yn cael ei ymchwilio yna mae gan y Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau (AIB) briodol o'r Adran Drafnidiaeth ddyletswyddau ychwanegol i ymchwilio. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) ar wahân rhwng yr AIBs yn gasgliadol a'r CPS, ac ar ben hynny mae gan bob un o'r AIBs MoUs ag asiantaethau perthnasol eraill. Mae'n rhaid darllen y memoranda hyn ar y cyd â'r ddogfen hon.

(1) Bwriedir y rhestrau o weithgareddau fel canllaw ac nid ydynt yn drylwyr.

Atodiad B: Y Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol: Y Cylch Gorchwyl

Y PWYLLGOR CYSWLLT CENEDLAETHOL MARWOLAETHAU CYSYLLTIEDIG Â GWAITH

Y CYLCH GORCHWYL

1. Mae'r Pwyllgor Cyswllt Cenedlaethol (NLC) yn cynnwys cynrychiolwyr o Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW), Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd: Yr Adran Dyfeisiau Meddygol (MHRA), Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR), Swyddfa Rheilffordd a Ffordd (ORR), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLCC). Hefyd efallai bydd cynrychiolwyr sefydliadau nad ydynt yn llofnodwyr yn cael eu gwahodd i ddod.
2. Bydd yr NLC yn cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn i adolygu'r broses o weithredu 'Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith: Protocol ar gyfer Cyswllt' (y Protocol) er mwyn:
 - (i) ystyried yr angen am newidiadau i'r Protocol ac i drefniadau cyswllt;
 - (ii) nodi arferion da;
 - (iii) trafod materion o gydbryder, yn bennaf ar lefel genedlaethol; a
 - (iv) darparu rhwydwaith defnyddiol o gysylltiadau.
3. Bydd Cadeiryddiaeth yr NLC ar sylfaen gylchdro, â phob un o'r llofnodwyr i'r Protocol yn cymryd y Gadair am ddwy flynedd yn ei dro. Bydd pob blwyddyn yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth.
4. Dylai pob un o'r sefydliadau llofnodol WRDP, ta waeth am faint ac adnoddau eu sefydliad, gael y cyfle i Gadeirio'r NLC.
5. Bydd y Cadeirydd yn cynnal pedwar cyfarfod o'r NLC yn ystod eu cyfnod cadeirio a bydd yn cylchredeg cofnodion cyfarfodydd.
6. Ni fydd yr NLC yn goruchwyllo achosion unigol er y gallai eu monitro er mwyn nodi pwyntiau dysgu ynghylch effeithiolrwydd y Protocol.
7. Bydd yr NLC yn goruchwyllo Pwyllgorau Cyswllt Rhanbarthol (RLCs) trwy ddarparu cyfarwyddyd a chynghor ynghylch sut dylent weithredu.
8. Bydd yr NLC a'r RLC yn cyfathrebu ynghylch effeithiolrwydd y Protocol, ac er mwyn hwyluso nodi arferion gorau a rhannu gwybodaeth.
9. Caiff y Cylch Gorchwyl hwn ei adolygu o bryd i'w gilydd fel bo angen.

Atodiad C: Pwyllgorau Cyswllt Rhanbarthol: Cylch Gorchwyl Enghreifftiol

PWYLLGOR CYSWLLT RHANBARTHOL: MARWOLAETHAU CYSYLLTIEDIG Â GWAITH

CYLCH GORCHWYL

1. Mae'r Pwyllgor Cyswllt Rhanbarthol (RLC) yn cynnwys cynrychiolwyr o Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW), Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd: Yr Adran Dyfeisiau Meddygol (MHRA), Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR), Swyddfa Rheilffordd a Ffordd (ORR), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLHC). Hefyd efallai bydd cynrychiolwyr sefydliadau nad ydynt yn llofnodwyr yn cael eu gwahodd i ddod.
2. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Rhanbarthol (RLC), lle mae'n bosibl, yn dod o'r un partner i'r Protocol â Chadeirydd yr NLC. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr RLC yn penderfynu pa bartner fyddai yn y sefyllfa orau i gymryd rôl y Cadeirydd am y cyfnod o ddwy flynedd.
3. Dylai Cadeiryddion yr RLC ddal i gylchredeg ar yr un pryd â Chadeirydd yr NLC wedi'r cyfnod o ddwy flynedd.
4. Bydd yr RLC yn cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn:
 - (i) trafod materion a godir ar lefel yr NLC a gyfathrebwyd i RLCs (fel arfer trwy gylchredeg cofnodion cyfarfodydd NLC);
 - (ii) monitro gweithredu ac effeithiolrwydd y protocol ar y lefel leol;
 - (iii) cyfathrebu unrhyw broblemau sylweddol i'r NLC;
 - (iv) hyrwyddo'r arfer o gydymchwilio trwy rannu enghreifftiau o arferion da a gwael;
 - (v) trafod materion o gydfuddiant a chydbyrder;
 - (vi) fel bo angen, neu drwy gyfarwyddyd gan yr NLC, nodi a chyflenwi digwyddiadau CPD er mwyn hyrwyddo egwyddorion yr WRDP a'r arfer o gydymchwilio fel a argymhellir yng Nghanllaw Ymarferol yr WRDP.
5. Bydd yr RLC yn sefydlu a chynnal llinellau effeithiol o gyfathrebu ar lefel leol rhwng sefydliadau llofnodol er mwyn sicrhau y gellir trafod problemau, a'u huwchgyfeirio os bydd angen.
6. Caiff y Cylch Gorchwyl hwn ei adolygu o bryd i'w gilydd fel bo angen.

Adolygiad Diwethaf Ionawr 2016

Gwybodaeth bellach

I weld gwybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ewch i www.hse.gov.uk/. Gallwch weld cyfarwyddyd ar-lein ac archebu cyhoeddiadau â phris oddi ar y wefan yn HSE: Cyfarwyddyd ar iechyd a diogelwch yn y gwaith. Hefyd mae cyhoeddiadau HSE â phris ar gael mewn siopau llyfrau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn www.hse.gov.uk/pubns/wrdp1.pdf.

Mae'r Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith: Canllaw Ymarferol ar gael yn www.hse.gov.uk/pubns/wrdp2.pdf.

Mae cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gael trwy wefan y CPS yn Cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron: Dogfennau a gyhoeddir gan y CPS. <http://www.cps.gov.uk/publications/>

Mae cyhoeddiadau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gael gan <http://site.npcccms.coraider.com/FreedomofInformation/Documents.aspx>

Mae cyhoeddiadau Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gael gan www.btp.police.uk/advice_and_info.aspx.

Mae cyhoeddiadau Y Comisiwn Ansawdd Gofal ar gael gan www.cqc.org.uk

Mae cyhoeddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gael gan www.cssiw.org.uk

Mae cyhoeddiadau Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar gael gan www.cfoa.org.uk/11898

Mae cyhoeddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael gan www.hiw.org.uk/

Mae cyhoeddiadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar gael gan www.gov.uk/government/publications.

Mae cyhoeddiadau Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd ar gael gan www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency/services-information.

Mae cyhoeddiadau Swyddfa Rheilffordd a Ffordd ar gael gan <http://orr.gov.uk/publications>.

Mae cyhoeddiadau Swyddfa dros Reoli Niwclear ar gael gan www.onr.org.uk/resources.htm.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: www.hse.gov.uk/pubns/wrdp.pdf

© *Hawlfraint y Goron* Os dymunwch ailddedfnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/information-management/our-services/crown-copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 01/15.

Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyswilt Cenedlaethol ar gyfer y Protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (Cymru a Lloegr) WRDP2W(rev) 02/16